**Datganiad Ystadegol Cyntaf**

Ystadegau Swyddogol

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Deilliannau arolygu darparwyr addysg yng Nghymru a arolygwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020

Rydym wedi diweddaru ein gwefan â chrynodebau o ddeilliannau arolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Medi 2019 ac 16 Mawrth 2020, pan gafodd arolygiadau eu hatal o ganlyniad i bandemig COVID-19.

**Dyddiad cyhoeddi**
9 Medi 2020

**Diweddariad nesaf**
Bydd Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yn darparu gwerthusiad a sylwadau pellach ar berfformiad ym maes addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn ystod 2019-2020.

Byddwn yn cyhoeddi hwn ar 9 Rhagfyr 2020.

**Gwybodaeth bellach**
Mae deilliannau yn ôl darparwr, crynodebau ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn ôl sector a lleoliad, a chrynodeb o ymatebion i'n holiaduron dysgwyr a rhieni cyn-arolygiad ar ein gwefan:

**data.estyn.gov.wales**
**data.estyn.llyw.cymru**

Fe wnaethom gyhoeddi ar 16 Mawrth 2020 y byddai arolygiadau'n cael eu hatal oherwydd pandemig COVID-19. Mae gwybodaeth am ein cynlluniau i ailddechrau arolygiadau yn y dyfodol ar gael ar ein gwefan: estyn.llyw.cymru/arolygu/cwestiynau-cyffredin-covid-19-ac-arolygu

Cyn atal arolygiadau, roeddem wedi arolygu 159 o ddarparwyr o dan ein fframwaith arolygu cyffredin, a 52 o leoliadau meithrin nas cynhelir o dan drefniadau arolygu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod 2019-2020.

Mae adroddiadau arolygu unigol a chrynodebau o'r deilliannau arolygu ar gyfer yr arolygiadau hyn ar gael ar ein gwefan: estyn.llyw.cymru/inspection-reports

Hefyd, fe wnaethom gynnal tri arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol. Mae'r adroddiadau arolygu unigol ar ein gwefan yn darparu manylion am ein canfyddiadau o'r arolygiadau hyn.

Roeddem wedi bwriadu arolygu 351 o ddarparwyr yn ystod 2019-2020. (a)

(a) Estyn (2019), *Cynllun Blynyddol 2019-2020*. [Arlein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/2019-20%2520-%2520Annual%2520Plan%2520cy%25200.pdf

**Ystadegydd Cyfrifol:** Sioned Cardew-Richardson **Cyswllt:** stats@estyn.gov.wales / 02920 44 6304
**Swyddfa'r wasg:** 02920 44 6317
www.estyn.gov.wales / www.estyn.llyw.cymru @EstynHMI / @EstynAEM EstynHMI / EstynAEM

## Cael mynediad at ein data

- Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn wedi cael ei gyhoeddi ymlaen llaw, ac wedi'i roi ar ein gwefan. Fe'i paratowyd yn unol ag egwyddorion a phrotocolau'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

- Mae crynodeb o'n deilliannau arolygu ac atebion i holiaduron i'w gweld ar ein gwefan.

- Gall defnyddwyr gymhwyso hidlyddion i deilwra eu ffyrdd o weld data a lawrlwytho'r canlyniadau. Mae'n cynnwys data ar gyfer arolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Medi 2010 ac 16 Mawrth 2020, pan gafodd arolygiadau eu hatal o ganlyniad i bandemig COVID-19.

- Mae pedair adran wahanol, sef:
  - 'Deilliannau yn ôl darparwr': rhestr o'r deilliannau arolygu ar gyfer darparwyr a grwpiau unigol.
  - 'Deilliannau yn ôl sector': deilliannau arolygu ar gyfer sectorau cyfan.
  - 'Deilliannau ar draws awdurdodau lleol': crynodebau o ddeilliannau arolygu ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru.
  - 'Holiadur dysgwyr a rhieni': crynodebau o'r atebion i'n holiaduron.

- Mae'r adroddiadau arolygu ar gyfer darparwyr unigol sy'n cynnwys gwerthusiadau a sylwadau manwl ar y canfyddiadau arolygu ar gael ar ein gwefan.
- estyn.llyw.cymru/inspection-reports

## Sylwadau pellach ar ein data

- Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi bob blwyddyn, ac mae'n darparu gwerthusiad a sylwadau ar y deilliannau arolygu a pherfformiad darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.

- Bydd yr Adroddiad Blynyddol, sy'n gwerthuso ystod lawn y canfyddiadau a'r dadansoddiad ar berfformiad addysg a hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2019-2020, yn cael ei gyhoeddi ar 9 Rhagfyr 2020 a bydd ar gael ar ein gwefan.

# Ynglŷn â'n deilliannau arolygu 2019-2020

- Rydym yn arolygu'r holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru o leiaf unwaith o fewn cyfnod o saith mlynedd, a ddechreuodd ar 1 Medi 2016.

- Rydym yn rhoi tair wythnos o rybudd am arolygiad, ac eithrio ar gyfer meithrinfeydd nas cynhelir (10 diwrnod gwaith), gwasanaethau addysg llywodraeth leol (10 wythnos o rybudd) ac addysg gychwynnol athrawon (8 wythnos o rybudd). Nid yw dyddiad yr arolygiad nesaf wedi'i gysylltu â dyddiad yr arolygiad blaenorol.

- Rydym yn cyhoeddi adroddiadau arolygu ar ein gwefan ar ôl yr arolygiad; y rhan fwyaf ohonynt o fewn 45 diwrnod gwaith o ddechrau'r arolygiad, ond mae hyn yn amrywio ychydig i rai sectorau.

- Mae'r fframwaith arolygu cyffredin yn berthnasol i'r holl ysgolion, colegau annibynnol arbenigol, unedau cyfeirio disgyblion, darparwyr dysgu yn y gwaith, colegau addysg bellach a darparwyr Cymraeg i oedolion. Mae wedi'i drefnu fel a ganlyn:
    1. Safonau
    2. Lles ac agweddau at ddysgu
    3. Addysgu a phrofiadau dysgu
    4. Gofal, cymorth ac arweiniad
    5. Arweinyddiaeth a rheolaeth

- Rydym yn defnyddio'r raddfa pedwar pwynt ganlynol i ddangos ein barnau arolygu:

| **Barn** | **Beth mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn a chynaledig. |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gallai fod angen gwella mân agweddau. |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond mae angen gwella agweddau pwysig. |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau. |

- Mae gwybodaeth am ein trefniadau arolygu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru ar gael ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/fframwaith-arolygu-cyffredion-lleoliadau-nas-gynhelir

- Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr. Gall y gweithgarwch hwn amrywio o nodi arfer effeithiol a gofyn am astudiaethau achos o enghreifftiau i argymell mesurau arbennig.

- Sicrheir ansawdd ein holl farnau arolygu gan Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (AEM) arall. Bydd yr AEM sy'n ymgymryd â'r rôl hon yn gwirio'r barnau a luniwyd mewn adroddiad arolygu yn unol â'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr arolygiad, i wneud yn siŵr fod cyfatebiaeth rhyngddynt. Hefyd, byddant yn gwirio bod y tîm wedi dilyn ein harweiniad cyhoeddedig ar gyfer arolygwyr. Caiff ein trefniadau sicrhau ansawdd eu sicrhau gan archwilwyr annibynnol.

- Wrth ddadansoddi data deilliannau arolygu, mae'n bwysig nodi y gall fod anawsterau wrth gymharu tueddiadau mewn deilliannau rhwng blynyddoedd o ganlyniad i amrywiadau yn sampl y darparwyr a arolygwyd gennym.

- Cafodd arolygiadau eu hatal o 16 Mawrth 2020 o ganlyniad i bandemig COVID-19.

- I gael rhagor o fanylion am ein proses arolygu, ewch i'n gwefan, sef: estyn.llyw.cymru/y-broses-arolygu/esbonio-arolygu

# Ynglŷn â'n holiaduron cyn-arolygiad

- Rydym yn casglu safbwyntiau dysgwyr, rhieni a gofalwyr, athrawon a staff cymorth, llywodraethwyr a chyflogwyr dysgu yn y gwaith cyn i ni arolygu eu darparwr addysg.

- Rydym ond yn cyhoeddi crynodebau o holiaduron dysgwyr, a holiaduron rhieni a gofalwyr. Y rheswm am hyn yw nifer annigonol yr ymatebion neu'r arolygiadau unigol ar gyfer yr holiaduron eraill.

- Mae ein holiaduron wedi eu teilwra ar gyfer pob sector, ond maent yn casglu gwybodaeth ar themâu tebyg.

- Caiff pynciau eu hannog i lenwi'r holiaduron hyn yn electronig ar gyfer effeithlonrwydd, er y gall y darparwr ofyn am gopïau caled.

- I gael rhagor o fanylion am ein holiaduron, ewch i'n gwefan estyn.llyw.cymru/adborth-arolygu/holiaduron

# Cymharedd y data hwn

- Mae'n anodd cymharu ein deilliannau arolygu â rhai gwledydd eraill oherwydd y gwahanol systemau addysg ac arolygu.

- I gael rhagor o wybodaeth am y systemau a'r deilliannau arolygu yng ngwledydd eraill y DU, gweler eu gwefannau unigol:

| | | |
|---|---|---|
| **Lloegr** | Ofsted | www.gov.uk/government/organisations/ofsted |
| **Gogledd Iwerddon** | Education Training Inspectorate | www.etini.gov.uk/ |
| **Yr Alban** | Education Scotland | https://education.gov.scot/ |

# Perthnasedd y data hwn

Defnyddir yr ystadegau hyn o fewn Estyn a'r tu allan i fonitro tueddiadau addysgol. Dyma rai o'r defnyddwyr allweddol:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Y gymuned ymchwil
- Darparwyr addysg a hyfforddiant
- Consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol a darparwyr addysg
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
- Dysgwyr, rhieni a gwarcheidwaid
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau